Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2021

**Cynnwys** **Tudalen**

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori'r Ceisydd** | **9** |
| **Prydlondeb yr Ymatebion** | **10** |
| **Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd** | **11** |
| **Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau** | **13** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **15** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **17** |
| **Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | **17** |
| **Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth)** | **17** |
| **Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2021** | **18** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r unfed adroddiad ar bymtheg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Adroddiad ôl-weithredol yw hwn sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2021.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sydd wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA2018) / Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Dim ond y ceisiadau a gofnodir gan Uned Hawl i Wybodaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau, ac nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" na gwybodaeth a rennir yn ystod y gwaith o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond cipolwg ar brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni bai y nodir fel arall, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau drwy'r adroddiad hwn gan ddefnyddio System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth Llywodraeth Cymru ar 11 Awst 2022. Nodwch y talgrynnir canrannau i un pwynt degol mewn meysydd, a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a ddaeth i law gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Crynodeb**

Yn ystod 2021:

- Cafodd Llywodraeth Cymru 1,131 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.

- Bu cynnydd o 14.9% yng nghyfanswm nifer y ceisiadau a ddaeth i law (o 984 yn 2020). Hwn yw'r nifer uchaf o geisiadau i ddod i law Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn galendr ers cychwyn yr FOIA a'r EIR ar 1 Ionawr 2005.

- O'r 1,131 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau[1] 1,130 (99.9%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

- O'r 1,130 o geisiadau a gwblhawyd, roedd 932 (82.5%) wedi'u cwblhau fewn 20 diwrnod gwaith ac roedd 941 (83.3%) wedi'u cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].

- O'r 1,130 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth wrth ymateb i 656 (58.1%).

- Yr esemptiadau / eithriadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd: FOIA adran 21: gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill (22.0%), FOIA adran 40: gwybodaeth bersonol (20.9%), ac EIR rheoliad 13: data personol trydydd partïon (9.1%).

- Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 44 o gwynion (3.9% o'r ceisiadau a ddaeth i law) yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd â cheisiadau am wybodaeth.

- O'r 44 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 8 achos, cadarnhawyd hi'n rhannol mewn 6 achos, a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 28 o achosion. Cafodd 2 gŵyn eu tynnu'n ôl gan yr achwynydd.

- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 11 o gwynion[3] (1.0% o'r ceisiadau) a rhoddodd Hysbysiad o Benderfyniad mewn perthynas â 6 ohonynt.

- Nid oedd unrhyw Hysbysiadau o Benderfyniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

---

[1] Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.

[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[3] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Hysbysiad o Benderfyniad gan y Swyddfa neu sydd wedi'i ddatrys fel arall ganddi.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**

Cafodd Llywodraeth Cymru 1,131 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn ystod 2021. Ers cychwyn yr FOIA ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau sy'n dod i law bob blwyddyn wedi amrywio. Bu cynnydd o 14.9% yn nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn ystod 2021 o'i gymharu â 2020. Y cyfanswm o 1,131 o geisiadau a ddaeth i law yw'r nifer uchaf o geisiadau i ddod i law Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn galendr ers cychwyn yr FOIA a'r EIR ar 1 Ionawr 2005.


Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn dangos cyfanswm blynyddol y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi sydd wedi dod i law Llywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a ddaeth i law o fis i fis yn ystod 2020 a 2021.

<u>Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaeth i law 2005-2021</u>

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a ddaeth i law | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---|---|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6% |
| 2007 | 574 | -15.2% |
| 2008 | 638 | 11.1% |
| 2009 | 860 | 34.8% |
| 2010 | 813 | -5.5% |
| 2011 | 853 | 4.9% |
| 2012 | 992 | 16.3% |
| 2013 | 1,102 | 11.1% |
| 2014 | 914 | -17.1% |
| 2015 | 899 | -1.6% |
| 2016 | 885 | -1.6% |
| 2017 | 787 | -11.1% |
| 2018 | 934 | 18.7% |
| 2019 | 734 | -21.4% |
| 2020 | 984 | 34.1% |
| 2021 | 1,131 | 14.9% |


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaeth i law 2005-2021



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaeth i law bob mis: 2020 a 2021

| Mis | 2020 | % o'r Cyfanswm | 2021 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 78 | 7.9% | 109 | 9.6% |
| Chwefror | 77 | 7.8% | 117 | 10.3% |
| Mawrth | 47 | 4.8% | 77 | 6.8% |
| Ebrill | 50 | 5.1% | 62 | 5.5% |
| Mai | 72 | 7.3% | 66 | 5.8% |
| Mehefin | 88 | 8.9% | 103 | 9.1% |
| Gorffennaf | 87 | 8.8% | 76 | 6.7% |
| Awst | 68 | 6.9% | 98 | 8.7% |
| Medi | 95 | 9.7% | 77 | 6.8% |
| Hydref | 120 | 12.2% | 78 | 6.9% |
| Tachwedd | 104 | 10.6% | 85 | 7.5% |
| Rhagfyr | 98 | 10.0% | 183 | 16.2% |
| **Cyfanswm** | **984** | **100%** | **1131** | **100%** |

Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaeth i law bob mis: 2021 a 2022




Yn Nhabl 3 ceir dadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a ddaeth i law Llywodraeth Cymru yn ystod 2021.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2021

| Maes / Grŵp Cyfarwyddwr Cyffredinol | 2021 Nifer y Ceisiadau | % o'r Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 152 | 13.4% |
| Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 426 | 37.7% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 249 | 22.0% |
| Swyddfa'r Prif Weinidog | 51 | 4.5% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 164 | 14.5% |
| Heb eu pennu'n ffurfiol[4] | 89 | 7.9% |
| **Cyfanswm** | **1,131** | **100%** |

Ffigur 3: Nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2021




[4] Nid oedd y ceisiadau hyn yn dod o fewn unrhyw faes grŵp penodol a'r Uned Hawliau Gwybodaeth fu'n ymdrin â nhw yn ganolog.


**Categori'r Ceisydd:**

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau o'r Senedd (AS), y cyfryngau, staff ac Aelodau o Senedd y DU (AS y DU) yn cyfrif am 85 (7.5%) o'r 1,131 o geisiadau a ddaeth i law. Cofnodwyd y 1,046 o geisiadau sy'n weddill (sef 92.5% o'r holl geisiadau) o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a ddaeth i law gan bob math o geisydd yn ystod bob chwarter yn 2021

| | Eraill | AS | Y Cyfryngau | Staff | AS y DU |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 285 | 3 | 11 | 2 | 2 |
| Chwarter 2 | 205 | 2 | 15 | 7 | 2 |
| Chwarter 3 | 225 | 3 | 19 | 4 | 0 |
| Chwarter 4 | 331 | 5 | 8 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm 2021** | **1,046** | **13** | **53** | **16** | **4** |

Ffigur 4: Ceisiadau a ddaeth i law gan bob math o geisiwr yn ystod pob chwarter yn 2021



**Prydlondeb yr Ymatebion:**

Mae'r FOIA a'r EIR yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb fel arfer i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu cael, heblaw am eithriadau cyfyngedig. Mae'r FOIA yn caniatáu estyniad rhesymol i'r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi'i bwyso a'i fesur yn ôl budd y cyhoedd ac mae'r EIR yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 1,131 o geisiadau, roedd 1,130 wedi'u cwblhau (99.9%) ar adeg llunio'r adroddiad. O'r 1,130 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 932 (82.5%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 941 (83.3%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[5].

Mae tabl 5 isod yn dangos canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005[6].

Tabl 5:  Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2021

| Blwyddyn | % a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol |
|---|---|
| 2005 | 63.3% |
| 2006 | 64.2% |
| 2007 | 81.0% |
| 2008 | 86.2% |
| 2009 | 82.1% |
| 2010 | 74.6% |
| 2011 | 83.0% |
| 2012 | 89.0% |
| 2013 | 90.1% |
| 2014 | 91.0% |
| 2015 | 86.6% |
| 2016 | 84.7% |
| 2017 | 83.5% |
| 2018 | 89.7% |
| 2019 | 89.2% |
| 2020 | 79.8% |
| 2021 | 83.3% |

[5] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.
[6] Mae'r ffigurau ar gyfer 2005-2008 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau oedd yn agored wedi'u cwblhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.


**Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd:**

Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 5a a 5b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020 a 2021 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau wedi'u cwblhau yn ôl categori cwblhau yn ystod 2020 a 2021

| Categori Cwblhau | 2020 | % o'r Cyfanswm | 2021 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Yr holl wybodaeth wedi'i darparu | 487 | 49.8% | 493 | 43.6% |
| Peth gwybodaeth wedi'i darparu | 135 | 13.8% | 163 | 14.4% |
| Dim gwybodaeth wedi'i darparu[7] | 136 | 13.9% | 138 | 12.2% |
| Ni chedwir gwybodaeth | 208 | 21.3% | 328 | 29.0% |
| Tynnwyd yn ôl | 12 | 1.2% | 8 | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **978** | **100%** | **1,130** | **100%** |

Ffigur 5a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn ôl categori cwblhau yn ystod 2021





[7] Mae'r categori 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu ragor o eithriadau, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am eu bod yn fwy na'r terfyn priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu wedi'u hailadrodd.

Tabl 6b: Nifer y ceisiadau 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' yn ôl categori esemptio yn ystod 2020 a 2021

| Categori Cwblhau 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' | 2020 | % o'r Cyfanswm | 2021 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| S12 Mwy na'r terfyn priodol | 60 | 44.1% | 46 | 33.3% |
| S14 Blinderus | 0 | 0.0% | 1 | 0.7% |
| S14 Wedi'i ailadrodd | 2 | 1.5% | 1 | 0.7% |
| Yr wybodaeth yn perthyn i gategori esemptio arall[8] | 74 | 54.4% | 90 | 65.2% |
| **Cyfanswm** | **136** | **100%** | **138** | **100%** |

Ffigur 5b: Nifer y ceisiadau 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' yn ôl categori esemptio yn ystod 2021




[8] Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle na ddarparwyd unrhyw wybodaeth o gwbl, gan ddefnyddio un neu ragor o'r esemptiadau/eithriadau a restrir yn yr FOIA, EIR 2004 neu DPA ac eithrio a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol' ac a14 'blinderus neu wedi'i ailadrodd'.

**Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan yr FOIA, ni all awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani, oni bai bod y canlynol yn wir:

- ystyrir bod y cais yn un blinderus neu'n un sydd wedi'i ailadrodd;
- byddai'r gost o gydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn perthyn i un neu ragor o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn yr FOIA, EIR 2004 neu DPA 2018/GDPR y DU.

Mae Tabl 7 a Ffigur 6 yn rhoi manylion am yr esemptiadau a'r eithriadau a ddefnyddiwyd o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y defnyddiwyd esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â nhw gan ei bod yn bosibl defnyddio mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth


Yr esemptiadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd bod yr wybodaeth ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill (FOIA Adran 21), i ddiogelu gwybodaeth bersonol (FOIA Adran 40) ac i ddiogelu data personol trydydd partïon (EIR Rheoliad 13).

Tabl 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2021

| Deddf-Esemptiad[9] | 2021 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 16 | 17 | 5.9% |
| EIR Rheoliad 12(4)(b) | 11 | 3.8% |
| EIR Rheoliad 12(4)(e) | 10 | 3.5% |
| EIR Rheoliad 13 | 26 | 9.1% |
| FOIA Adran 21 | 63 | 22.0% |
| FOIA Adran 22 | 15 | 5.2% |
| FOIA Adran 40 | 60 | 20.9% |
| FOIA Adran 41 | 10 | 3.5% |
| FOIA Adran 43 | 25 | 8.7% |
| Pob esemptiad arall | 50 | 17.4% |
| **Cyfanswm** | **287** | **100%** |

[9] Ceir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn berthnasol iddo ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-informationregulations/

Ffigur 6: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2021



**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol: i) os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Cafodd Llywodraeth Cymru 44 o gwynion yn ystod 2021, sy'n cyfateb i 3.9% o'r ceisiadau. Roedd hyn yn ostyngiad o 8.3% o'i gymharu â 2020.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2021)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |
| 2016 | 59 |
| 2017 | 56 |
| 2018 | 81 |
| 2019 | 52 |
| 2020 | 48 |
| 2021 | 44 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 7: Nifer y Cwynion (2005-2021)




Tabl 9:  Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2021

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhau'r gŵyn | 8 | 18.2% |
| Cadarnhau'r gŵyn yn rhannol | 6 | 13.6% |
| Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | 28 | 63.6% |
| Tynnwyd yn ôl | 2 | 4.5% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 44 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 8 achos, cadarnhawyd hi'n rhannol mewn 6 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 28 o achosion. Tynnwyd 2 gŵyn yn ôl gan yr achwynydd.

Ffigur 8:  Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2021.



**Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:**

Nid oes unrhyw derfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac y gellir, mewn achosion eithriadol, estyn y terfyn amser i 40 diwrnod gwaith.

O'r 44 adolygiad mewnol, cwblhawyd 31 (70.5%) o fewn 20 diwrnod gwaith, cwblhawyd 11 (25.0%) o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith a chymerodd 2 (5%) fwy na 40 diwrnod gwaith.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisydd yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl cael cwyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn penderfynu a ddylid ymchwilio a gall yn ddiweddarach roi Hysbysiad o Benderfyniad. Hysbysiad o Benderfyniad yw barn derfynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ba un a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r FOIA neu'r EIR, a pha gamau unioni (os o gwbl) y mae angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad o Benderfyniad. Datrysir rhai ymchwiliadau yn anffurfiol.

Yn 2021, ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 11 o gwynion[10] (1.0% o'r ceisiadau). O'r 11 ymchwiliad a gwblhawyd, rhoddwyd 6 hysbysiad o benderfyniad. Roedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu ymhellach ar 2 o'r hysbysiadau o benderfyniad.

**Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth):**

Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth) yn gwrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysiadau o Benderfyniadau a roddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ystod 2021, nid oedd unrhyw Hysbysiadau o Benderfyniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[10] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Hysbysiad o Benderfyniad gan y Swyddfa neu sydd wedi'i ddatrys fel arall ganddi.

**Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2021**

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y defnyddiwyd esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â nhw gan fod modd defnyddio mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol.

| **Deddf - Esemptiad** | **2020** | **% o'r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 2 – Trosedd a threthi | 1 | 0.3% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 16 – Diogelu hawliau pobl eraill | 17 | 5.9% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 19 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 7 | 2.4% |
| EIR 12(4)(b) – Y cais yn amlwg yn afresymol | 11 | 3.8% |
| EIR 12(4)(c) – Y cais wedi'i lunio mewn modd rhy gyffredinol | 1 | 0.3% |
| EIR 12(4)(d) – Deunydd sy'n dal wrthi'n cael ei gwblhau | 7 | 2.4% |
| EIR 12(4)(e) – Deunydd cyfathrebu mewnol | 10 | 3.5% |
| EIR 12(5)(a) – Cysylltiadau rhyngwladol | 1 | 0.3% |
| EIR 12(5)(b) – Cwrs cyfiawnder, treial teg, ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad disgyblu | 4 | 1.4% |
| EIR 12(5)(c) – Hawliau eiddo deallusol | 1 | 0.3% |
| EIR 12(5)(e) – Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiant masnachol cyfreithlon | 2 | 0.7% |
| EIR 12(5)(f) – Buddiannau'r person a ddarparodd wybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus | 1 | 0.3% |
| EIR 13 – Data personol trydydd partïon | 26 | 9.1% |
| FOIA Adran 21 – Gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill | 63 | 22.0% |
| FOIA Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 15 | 5.2% |
| FOIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 3 | 1.0% |
| FOIA Adran 29 – Yr economi | 5 | 1.7% |
| FOIA Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith | 1 | 0.3% |
| FOIA Adran 35 – Ffurfio polisi'r llywodraeth | 6 | 2.1% |
| FOIA Adran 36 – Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | 3 | 1.0% |
| FOIA Adran 37 – Cyfathrebiadau â'i Mawrhydi | 1 | 0.3% |
| FOIA Adran 38 – Iechyd a diogelwch | 1 | 0.3% |
| FOIA Adran 40 – Gwybodaeth bersonol | 60 | 20.9% |
| FOIA Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 10 | 3.5% |
| FOIA Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 3 | 1.0% |
| FOIA Adran 43 – Buddiannau masnachol | 25 | 8.7% |
| GDPR y DU Erthygl 12(5)(b) – Yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol | 2 | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **287** | **100%** |